# ADRODDIADAU YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNGHYLCH TEITHIO LLESOL

# CILGANT MYRDDIN - BRYNTIRION



CHWEFROR 2025

# CYNNWYS

**1.0. CYFLWYNIAD** ..... 4
1.1 Trosolwg o'r cynllun ..... 4
1.2 Amcanion y Cynllun: ..... 4
**2.0 Crynodeb o'r Ymgysylltu â'r Cyhoedd** ..... 7
2.1 Dulliau o hyrwyddo ..... 7
2.2 Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio i'r gwaith wrth deithio o ddydd i ddydd? ..... 7
2.3 Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) ..... 9
2.4 A fydd y cynllun hwn yn eich annog chi i gerdded neu feicio yn fwy na'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd? ..... 11
2.5 A ydych chi'n cefnogi'r cynllun? ..... 13
**3.0 Sesiwn Ymgysylltu gyda Disgyblion** ..... 15
3.1 Arolwg data Sustrans ..... 15
3.2 Ydych chi'n credu y bydd y cynllun hwn yn gwella cerdded a beicio i'r ysgol ac oddi yno ..... 15
3.3 Cwestiynau a holwyd gan y disgyblion ..... 16
**4.0 Deiseb** ..... 19
**5.0 Casgliad** ..... 22
5.1 Beth sy'n digwydd nesaf? ..... 22
**6.0 Atodiadau** ..... 23
Atodiad A: Copi o arolwg Cilgant Myrddin ..... 23
Atodiad b Sgrinlun o'r llythyr a anfonwyd at breswylwyr ..... 25

Ffigwr 1: Map yn dangos tri cham llwybr teithio llesol Cilgant Myrddin a mannau croesi is mewn perthynas â llwybrau teithio llesol presennol a'r dyfodol ym Mryntirion a Chefn Glas ..... 6
Ffigwr 2: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 1 yr arolwg. ..... 8
Ffigwr 3: Siart gylch o'r canlyniadau cyfun o gwestiwn 1 yr arolwg. ..... 9
Ffigwr 4: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 2 yr arolwg. ..... 10
Ffigwr 5: Siart gylch canlyniadau cyfun o gwestiwn 2 o'r arolwg ..... 11
Ffigwr 6: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg. ..... 12
Ffigwr 7: Siart gylch yn dangos y canlyniadau cyfunol o gwestiwn 3 yr arolwg. ..... 12
Ffigwr 8: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 4 yr arolwg. ..... 14

Ffigwr 9: Siart gylch o’r canlyniadau cyfunol o gwestiwn 4 yr arolwg. 14

## Tabl y Tablau

Tabl 1: Canlyniadau o gwestiwn 1 yr arolwg. 7
Tabl 2: Canlyniadau o gwestiwn 2 yr arolwg. 9
Tabl 3: Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg. 11
Tabl 4: Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg. 13
Tabl 5: Canlyniadau arolwg ‘Dwylo i Fyny’ Sustrans 15
Tabl 6: Canlyniadau o’r arolwg ymgysylltu gyda disgyblion 16
Tabl 7: Cwestiynau ac atebion mewn sesiwn ymgysylltu gyda disgyblion 18
Tabl 8: Sylwadau ac ymatebion swyddogion o’r ddeiseb. 21

# 1.0. CYFLWYNIAD

1.0.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliannau ymgysylltiad cymunedol diweddar yr ymgymerwyd fel rhan o'r cynlluniau teithio llesol drwy Cilgant Myrddin. Bydd y cynllun arfaethedig yn llwybr cerdded/beicio ar wahân ynghyd â chwrbiau isel mewn rhai ardaloedd dethol drwy Fryntirion a Chefn Glas.

1.0.2 Mae tri set data wedi'u creu o dair sesiwn ymgysylltu gwahanol er mwyn gallu deall barn a safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch cynllun Cilgant Myrddin. Y tair sesiwn oedd:

- Sesiwn Ymgysylltu Disgyblion - 22ain o Fai 2024. Roedd hyn am awr o 14:00 hyd 15:00 gyda disgyblion a staff brwd o Ysgol Gyfun Bryntirion. Pwrpas y dull hwn oedd cael mewnwelediad i safbwyntiau sydd gan ddisgyblion tuag at drafnidiaeth gynaliadwy/teithio llesol.
- Ymgysylltu Cymunedol Wyneb yn Wyneb - 15fed Gorffennaf 2024. Gwnaed hyn o 16:30 hyd at 19:00 er mwyn i breswylwyr alw i mewn i Ysgol Gyfun Bryntirion a thrafod y cynigion gyda swyddogion. Roedd hyn er mwyn sicrhau barn yr holl breswylwyr oedd yn ddefnyddwyr. Cwblhawyd yr arolwg gan 40 o bobl yn ystod y sesiwn wyneb yn wyneb.
- Arolwg Ar-lein - Cafodd yr arolwg ei hysbysebu a'i ryddhau ar-lein am gyfnod o bythefnos o 29ain Gorffennaf 2024 hyd 12fed Awst 2024. Argymhellwyd hyn gan aelod lleol er mwyn sicrhau diddordeb gan rai mewn ardaloedd cyfagos i Ben-y-bont ar Ogwr a rhai na allai fynychu'r sesiwn wyneb yn wyneb gan arwain at gyfradd ymateb uwch. Profodd hyn i fod yn benderfyniad buddiol gan greu 90 o ymatebion pellach.

1.0.3 Roedd Cynghorwyr Lleol yn bresennol yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r ymgysylltu gyda disgyblion. Roedd yr Arweinydd, Luke Fletcher MS a'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai hefyd yn bresennol yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb. Defnyddiwyd yr un arolwg ar gyfer y ddau o'r rhain gyda'r canlyniadau'n cael eu cyfuno yn yr adroddiad hwn ar gyfer eu dadansoddi, a gellir gweld yr arolwg hwn yn Atodiad A. Codwyd deiseb hefyd gyda'r pwyntiau'n cael eu trin yn rhannau olaf y ddogfen (Pennod 4).

## 1.1 TROSOLWG O'R CYNLLUN

1.1.1 Mae'r cynllun yn cynnwys tri cham, sy'n defnyddio côd lliw glas, coch ac oren (gweler Ffigwr 1).

Cam 1 (Glas): Mae'n sefydlu cyswllt teithio llesol ar hyd Cilgant Myrddin, ger Ysgol Gyfun Bryntirion, a dangoswyd y trefniant cyffredinol hwn hefyd yn y sesiwn ymgysylltu.

Cam 2 (Coch): Mae'n cyd-fynd gyda'r cyswllt teithio llesol ar hyd Cilgant Myrddin, a ddatblygir yr un pryd gyda Cham 1.


Cam 3 (Oren): Mae'n cynrychioli'r blynyddoedd dilynol er mwyn cwblhau'r llwybr teithio llesol yn ei gyfanrwydd.

## 1.2 AMCANION Y CYNLLUN:

- Creu llwybr cerdded a beicio sydd ar wahân yn rhannol i'r map rhwydwaith teithio llesol presennol (ATNM) i Ysgol Gyfun Bryntirion.

- Ffurfio mynediad ehangach drwy'r gymuned gyfan, gan fod o fydd i deithiau i'r ysgol, siopau lleol, cyfleusterau ac arosfannau bysiau.
- Blaenoriaethu teithio llesol dros gerbydau modur drwy ddarparu cyfleusterau diogel oddi ar y ffordd, gan leihau allyriadau carbon.
- Canolbwyntio ar aliniad y cynllun gyda pholisïau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Teithio Lleol (2015-2030), Cynllun Llesiant (2018-2023), a Strategaeth Sero Net (2021-2025).

1.2.1 Mae adran o'r llwybr yn dod gyda graddiant heriol sydd wedi'i amlygu gan archwiliad diogelwch ffyrdd. Mae'r problemau a godwyd yn yr archwiliad hwn wedi eu cymryd i ystyriaeth yng nghynllun y llwybr a'r mesurau sydd wedi eu rhoi ar waith er mwyn eu gwella. Mae'r cynllun felly'n boddhau gofynion eraill Canllawiau Cynllunio Deddf Teithio Llesol (ATAG) gan gynnwys blaenoriaeth wrth gyffordd i gerddwyr a beicwyr.




**Ffigwr 1:** Map yn dangos tri cham llwybr teithio llesol Cilgant Myrddin a mannau croesi is mewn perthynas â llwybrau teithio llesol presennol a'r dyfodol ym Mryntirion a Chefn Glas.

## 2.0 CRYNODEB O'R YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

2.0.1 Mae Pennod 2 yn cynnwys canlyniadau'r sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r arolwg ar-lein, gyda'r ddau yn cynnwys yr un wybodaeth, ac mae'r deilliannau wedyn wedi cael eu cyfuno ar gyfer eu dadansoddi. Mae'r arolwg yn cynnwys 4 cwestiwn a gellir gweld y canlyniadau ar gyfer pob cwestiwn o Adran 2.2. hyd 2.5. Roedd cyfanswm o 138 o gyfranogwyr wnaeth gwblhau pob arolwg (gan gyfuno arolwg ar-lein ac mewn person).

2.0.2 Mae pob cwestiwn yn dechrau gyda thabl, sef y canlyniadau crai sydd wedi cael eu cyfrif gan swyddog. Yna, cyflwynir siart golofn mewn clwstwr er mwyn dod â'r tabl yn fyw. Yn olaf, mae pob cwestiwn yn gorffen gyda siart gylch sy'n dangos canlyniadau a'r deilliannau cyfun y cwestiwn.

### 2.1 DULLIAU O HYRWYDDO

2.1.1 Cafodd Aelodau Lleol wybod am y cynllun cyn y sesiynau er mwyn rhoi amser iddynt ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y preswylwyr. Cynghorwyd Aelodau Lleol gan swyddogion i bostio'r cynllun ar yr hybiau cymunedol. Anfonwyd llythyron drwy'r post at breswylwyr ar hyd Cilgant Myrddin sy'n ganolbwynt i'r llwybr teithio llesol (oddeutu 100 o dai), a gellir gweld y llythyr hwn yn Atodiad B. Cafodd y cynllun hefyd ei rannu ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Cafodd pob gohebiaeth a anfonwyd allan ei gyfieithu i'r Gymraeg.

### 2.2 PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO I'R GWAITH WRTH DEITHIO O DDYDD I DDYDD?


2.2.1 Mae cwestiwn cyntaf yr arolwg yn gofyn i breswylwyr pa mor aml maent yn defnyddio cludiant cynaliadwy wrth deithio'n ddyddiol, p'un a yw hyn ar gyfer ymweld â chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, cymdogion neu wasanaethau lleol. Mae'r cwestiwn hwn wedi ei gynnwys er mwyn cael dealltwriaeth o ba mor aml fyddai pobl yn dewis peidio gyrru a chasglu diddordeb cychwynnol yn y gwelliant i'r seilwaith teithio llesol. Mae'r arolwg yn dangos bod cyfanswm o 138 o gyfranogwyr, gyda 29% wedi cwblhau'r arolwg yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a 71% wedi cwblhau un ar-lein.

| C1. PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO WRTH DEITHIO BOB DYDD? | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 7 diwrnod yr wythnos | 5-6 diwrnod yr wythnos | 2-4 diwrnod yr wythnos | Unwaith yr wythnos | Unwaith bob pythefnos | Unwaith y mis | Llai am l | Byth | Cyfanswm |
| AROLWG WYNEB YN WYNEB | 8 | 9 | 9 | 3 | 0 | 0 | 2 | 9 | 40 |
| AR-LEIN | 22 | 13 | 22 | 9 | 1 | 5 | 7 | 19 | 98 |
| **CYFUNOL** | **30** | **22** | **31** | **12** | **1** | **5** | **9** | **28** | **138** |

**Tabl 1:** Canlyniadau o gwestiwn 1 yr arolwg.


2.2.2 Bu i ddeilliannau'r cwestiwn cyntaf amlygu dau begwn eithaf. Dywedodd 28 o'r 138 o gyfranogwyr nad oeddent byth yn cerdded nac yn beicio wrth deithio bob dydd. Rhoddwyd y rhesymeg ynghylch hyn yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb lle byddai rhai yn egluro mai ffactorau oedd y tu hwnt i'w rheolaeth oedd yn gyfrifol am hyn megis graddiant yr allt neu resymau iechyd.

2.2.3 Mae pen arall y siart yn tynnu sylw at y ffaith fod pobl yn defnyddio dulliau teithio cynaliadwy wrth deithio o ddydd i ddydd. Bydd 83 o'r 138 o gyfranogwyr yn cerdded neu feicio 2-7 dydd yr wythnos, ac eglurodd rhai bod hyn ar eu ffordd i'r gwaith a thynnodd eraill sylw at y ffaith eu bod yn gwneud hyn am resymau ffitrwydd a hamdden e.e. mynd â'r ci am dro. Mae'r canlyniadau wedi eu dangos isod yn Ffigwr 2.




**Ffigwr 2:** Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 1 yr arolwg.

2.2.4 Bydd Ffigwr 3 yn helpu i ddangos canlyniadau cyfunol a'r deilliant cyffredinol y cwestiwn cyntaf. Mae 22% o'r bobl a gwblhaodd yr arolwg yn cerdded neu'n beicio yn yr ardal 7 diwrnod yr wythnos. Ni fyddai 20% o bobl yn ystyried defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio oherwydd ffactorau y gellir, ac na ellir, eu rheoli. Bydd Adran 2.3 yn helpu i gael gwell dealltwriaeth ynghylch pam nad yw rhai cyfranogwyr o bosib yn ystyried cerdded neu feicio ar hyd Cilgant Myrddin.





**Ffigwr 3:** Siart gylch o'r canlyniadau cyfun o gwestiwn 1 yr arolwg.

## 2.3 PA ANAWSTERAU PRESENNOL SYDD YNA GYDA CHERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)

2.3.1 Roedd yr ail gwestiwn er mwyn ennill dealltwriaeth bellach ynghylch pam nad yw pobl o bosib yn ystyried teithio llesol fel eu dull dewisol o deithio ac er mwyn edrych mewn manylder ar y sgyrsiau cychwynnol hynny yng Nghwestiwn 1. Dewisodd nifer o breswylwyr fwy nag un opsiwn fel y cynghorwyd ar gyfer y cwestiwn hwn, lle maen nhw'n credu bod llawer o anawsterau gyda cherdded neu feicio ar hyd Cilgant Myrddin.

| C2. PA ANAWSTERAU SYDD YNA O RAN CERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL CHI? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhesymau iechyd | Cyfleus | Croesfannau diogel | Prinder cyfleusterau teithio llesol | Cymryd gormod o amser | Arall |
| AROLWG PAPUR | 11 | 3 | 8 | 5 | 6 | 13 |
| AROLWG AR-LEIN | 13 | 12 | 28 | 12 | 18 | 39 |
| **CANLYNIADAU CYFUNOL** | **24** | **15** | **36** | **17** | **24** | **52** |

**Tabl 2:** Canlyniadau o gwestiwn 2 yr arolwg.





**Ffigwr 4:** Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 2 yr arolwg.

2.3.2 Mae Tabl 2 yn dystiolaeth mai'r pryder mawr i nifer o breswylwyr yn ardal Bryntirion yw'r diffyg mannau croesi diogel yn arbennig felly yn ystod oriau agor/cau yr ysgol. Roedd 36 o'r 138 o gyfranogwyr (22%) eisiau gweld gwelliant diogelwch wrth groesi'r ffordd gyda cherbydau yn teithio y tu hwnt i'r terfyn cyflymder. Y deilliant trawiadol yng nghwestiwn 2 yw bod 52 o'r cyfranogwyr (31%) eisiau codi anawsterau eraill gyda swyddogion, ac mae'n werth nodi na wnaeth rhai ddewis yr opsiynau a ddarparwyd ond yn lle hynny fe wnaethant eu nodi yn y blwch 'sylwadau ychwanegol' e.e. "dyw hi ddim yn ddiogel i groesi".

2.3.3 Roedd gan nifer o'r arolygon sylwadau bod cyflymder/maint y traffig yn dod yn beryglus i bawb sy'n cerdded/beicio, yn arbennig yn ystod oriau agor a chau'r ysgol. Gwnaed sylwadau ychwanegol ar-lein er mwyn amlygu mor serth oedd yr allt, gan ddweud ei bod yn rhy serth ar gyfer beicio ac felly ni fyddai gwelliant o ran cyfleusterau teithio llesol yn eu hannog i gerdded/beicio mwy. Mae'r siart isod yn helpu i amlygu'r canfyddiadau o'r cwestiwn hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau a adawyd yn y blychau hyn wedi eu delio gyda nhw yn y ddeiseb yn ddiweddarach yn yr adroddiad gan beiriannydd (Tabl 8).

2.3.4 Mae'n werth nodi bod 14% o'r cyfranogwyr wedi egluro nad ydynt yn defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio oherwydd rhesymau iechyd, sydd yn ffactor y tu hwnt i'w rheolaeth, ac eglurodd rhai o'r rhain y byddent dal am weld gwelliant i gyfleusterau er diogelwch eraill megis y disgyblion. Gellir gweld y tueddiad ai hyn yn Ffigwr 4 a 5.





**Ffigwr 5:** Siart gylch canlyniadau cyfun o gwestiwn 2 o'r arolwg.

## 2.4 A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG CHI I GERDDED NEU FEICIO YN FWY NA'R HYN RYDYCH CHI'N EI WNEUD AR HYN O BRYD?

2.4.1 Pwrpas y cynllun yw creu amgylchedd diogel ar gyfer beicwyr a cherddwyr i deithio i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, a'r gwasanaethau ac ysgolion cyfagos. Penderfynodd swyddogion gael dealltwriaeth ynghylch a fyddai datblygu cyfleusterau teithio llesol yn yr ardal yn lleihau'r nifer o ddefnyddwyr yn dewis teithio ar eu pen eu hunain mewn car.


| C3. A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG I GERDDED NEU FEICIO MWY NA'R HYN RYDYCH CHI'N EI WNEUD AR HYN O BRYD? | | |
|---|---|---|
| | **Ydw** | **Na** |
| AROLWG PAPUR | 7 | 33 |
| AROLWG AR-LEIN | 14 | 84 |
| **CANLYNIADAU CYFUNOL** | **21** | **117** |

**Tabl 3:** Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg.




**Ffigwr 6:** Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg.

2.4.2 Dywedodd 85% o’r cyfranogwyr na fyddai gwelliant i’r cyfleusterau teithio llesol yn eu hannog i gerdded na beicio yn fwy na’r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd, a byddai hynny oherwydd y ffactorau na ellir eu rheoli a nodwyd yng nghwestiwn 2. Dywedodd rhai preswylwyr yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb nad yw cyflwr cyfredol y llwybr troed angen ei wella. Mewn cyferbyniad gyda hyn, dywedodd 15% o’r cyfranogwyr a gymerodd ran yn yr arolwg y byddai gwelliant yn eu hannog i ystyried dulliau cynaliadwy o deithio wrth deithio o ddydd i ddydd.




**Ffigwr 7:** Siart gylch yn dangos y canlyniadau cyfunol o gwestiwn 3 yr arolwg.

## 2.5 A YDYCH CHI'N CEFNOGI'R CYNLLUN?

2.5.1 Mae cwestiwn olaf yr arolwg ar gyfer cael gwell dealltwriaeth o faint o bobl sy'n cefnogi'r cynllun. Amlygodd cwestiynau 2 a 4 nad oedd mwyafrif o gyfranogwyr yr arolwg yn cefnogi'r cynigion.

| **C4: YDYCH CHI'N CEFNOGI'R CYNLLUN?** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Na** | **HEB BENDERFYNU** |
| AROLWG PAPUR | 8 | 29 | 2 |
| AROLWG AR-LEIN | 17 | 74 | 7 |
| **CANLYNIADAU CYFUNOL** | **25** | **103** | **9** |


**Tabl 4:** Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg.

2.5.2 Mae Ffigyrau 8 a 9 isod yn rhoi canlyniad cyffredinol yr arolwg gyda nifer yn gadael sylwadau ynghylch y rhesymau dros eu dewis. Nid yw 75% o'r bobl a gyfranogodd yn yr arolwg o blaid i'r cynllun fynd yn ei flaen.


2.5.3 Mae preswylwyr yn bryderus ynghylch mynd allan o'u tramwyfeydd gyda chyflymder beicwyr yn dod i lawr yr allt, ac nid ydynt yn dymuno bod yn atebol am unrhyw ddamweiniau sy'n digwydd. Mae cwestiynau hefyd wedi cael eu codi yn y 'Blwch sylwadau ychwanegol' ynghylch faint fydd yn defnyddio'r llwybr beicio wedi iddo gael ei adeiladu oherwydd graddiant serth yr allt. Pryderon a rhesymau eraill dros bleidleisio 'Na' ar gwestiwn 4 yw prysurdeb y safle yn ystod ac wedi'r gwaith adeiladu, a datganwyd y gallai damweiniau godi wrth aros am fysiau a rheini'n parcio yn ystod oriau ysgol prysur. Nid yw preswylwyr ar hyd Cilgant Myrddin yn dymuno i'r lleiniau glas gael eu gwaredu oherwydd y bydd dŵr arwyneb sy'n rhedeg gyda phwyntiau atodol yn cael eu codi ynghylch llifogi ar waelod yr allt. Gadawyd rhai sylwadau ychwanegol er mwyn egluro bod rhieni'r ysgol yn mynd i ofyn i'w plant ddefnyddio pen arall y ffordd, gyda phryder mawr ynghylch diogelwch o amgylch tagfeydd traffig. Mae llawer o'r pwyntiau hyn sydd wedi eu codi ar yr arolwg wedi eu delio â hwy yn yr adran Deiseb yn ddiweddarach yn yr adroddiad (Tabl 8).

2.5.4 Roedd 18% o blaid y cynllun, gyda phreswylwyr yn gadael sylwadau i ddweud pe bai'r llwybrau i gyd wedi eu cysylltu â'i gilydd, y byddent yn gallu cerdded am filltiroedd bob diwrnod. Eglurodd un cyfranogwr y byddai'n defnyddio'r seilwaith gwell ar gyfer beicio i'r gwaith ar yr ystâd ddiwydiannol. Bydd rhai sydd o blaid y cynllun eisiau parhau i ddarparu adborth ar yr hyn maent yn meddwl y gellid ei wella ar hyd Cilgant Myrddin gan egluro bod cyfyngiadau parcio'n bwysig ar gyfer annog dull arall o deithio yn yr ardal. Mae cyflymder y traffig hefyd wedi'i grybwyll ac y byddai'n beth gwych ymgorffori mesurau tawelu traffig ar hyd Bryngolau. Roedd y rhai oedd o blaid y cynllun am weld gwelliant i'r seilwaith presennol i wella diogelwch ac annog ffordd o fyw iach i'r disgyblion.

2.5.5 Ar ôl edrych ar y cynigion a siarad gyda swyddogion, roedd 7% o gyfranogwyr yr arolwg yn parhau i fod heb benderfynu ynghylch yr arolwg; nid yw'n hysbys sut oeddent yn ei deimlo cyn gweld y cynigion neu ddod i'r sesiwn.




**Ffigwr 8:** Siart golofn mewn clwstwr yn dangos y canlyniadau o gwestiwn 4 yr arolwg.




**Ffigwr 9:** Siart gylch o'r canlyniadau cyfunol o gwestiwn 4 yr arolwg.

# 3.0 SESIWN YMGYSYLLTU GYDA DISGYBLION

3.0.1 Roedd sesiwn gyntaf 2024 gyda chynrychiolwyr a disgyblion Ysgol Gyfun Bryntirion a gynhaliwyd am awr ar ddiwedd diwrnod ysgol. Cafodd hyn ei gadw ar wahân i'r data arall gan fod cwestiynau gwahanol wedi eu gofyn a bod gan y sesiwn fformant gwahanol. Roedd y sesiwn awr wedi'i gwahanu'n ddau gyflwyniad, roedd y cyntaf gan wirfoddolwr o Sustrans oedd eisiau cael dealltwriaeth gyffredinol o deimladau disgyblion tuag at deithio llesol (gweler Tabl 5). Roedd yr ail gyflwyniad gan swyddog o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a roddodd fanylion y cynllun er mwyn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gan y disgyblion neu'r staff (Adran 2.2 / Tabl 7).

3.0.2 Cyn gadael y cyflwyniad, gofynnwyd yn garedig i'r disgyblion gan y pennaeth cynorthwyol i bleidleisio os oeddent yn credu y byddai'r cynllun yn gwella eu dewisiadau o ran trafnidiaeth i'r ysgol ac oddi yno. Gellir gweld y canlyniadau isod yn Nhabl 6 sydd wedi ei rannu'n wahanol grwpiau oedran. Pleidleisiodd cyfanswm o 15 na ac 11 ie, sydd yn ganran fwy tebyg na'r canfyddiadau o'r arolwg.

## 3.1 AROLWG DATA SUSTRANS

3.1.1 Mae'r wybodaeth a gasglwyd gan Sustrans yn anodd i amlygu unrhyw dueddiadau gan iddo gael ei wneud drwy ddull 'arolwg dal dwylo i fyny'. Tuag at ddiwedd y sesiwn, roedd yn anodd cael yr union nifer o ddyblygiadau. Mae'r ystadegau o sut y byddai disgyblion yn ystyried teithio cyn ac wedi'r cyflwyniadau wedi cynnwys isod o hyd.

| Dull | Cyn cyflwyniad | Wedi'r cyflwyniad |
|---|---|---|
| Cerdded | 10 | 7 |
| Sgwter | 0 | 3 |
| Beic | 0 | 3 |
| Parcio a theithio | 1 | 0 |
| Car | 12 | 4 |
| Bws | 1 | 1 |

**Tabl 5:** Canlyniadau arolwg 'Dwylo i Fyny' Sustrans.

## 3.2 YDYCH CHI'N CREDU Y BYDD Y CYNLLUN HWN YN GWELLA CERDDED A BEICIO I'R YSGOL AC ODDI YNO

| Grŵp blwyddyn | Ydw | Na |
|---|---|---|
| Blwyddyn 7 | 5 | 4 |
| Blwyddyn 8 | 0 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn 9 | 4 | 0 |
| Blwyddyn 10 | 1 | 4 |
| Blwyddyn 11 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 12 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 13 | 0 | 2 |
| Staff | 1 | 0 |

**Tabl 6**: Canlyniadau o'r arolwg ymgysylltu gyda disgyblion.

## 3.3 CWESTIYNAU A HOLWYD GAN Y DISGYBLION

| Cwestiwn gan ddisgybl | Ymateb y swyddog |
|---|---|
| Sut fyddwch chi'n cael y preswylwyr i'ch cefnogi gyda pharcio | Bydd preswylwyr yn gweithio ac felly byddant i ffwrdd o'r tŷ ar adegau penodol, felly byddant yn osgoi'r amserau cyfyngu ar barcio. |
| A yw'r tai gyferbyn â'r ysgol wedi cytuno i'r cynllun? | Mae'n anodd cael pawb i gytuno, ond y flaenoriaeth yw diogelwch ac mae'n ymwneud â chael cydbwysedd gyda'r cyfyngiadau parcio. |
| A yw'r allt yn rhy serth? | Mae yn serth, ond mae disgyblion yn ifanc ac mae yna opsiwn ar gyfer e-feic/cerdded. Y mwyaf o ymarfer fyddwch chi'n ei gael yn gwneud hyn yna y gorau fyddwch chi'n mynd e.e. bydd y tro cyntaf yn anodd, ac o bosib yr ychydig wythnosau cyntaf, ond byddwch yn dod yn fwy heini bob tro. |
| A fydd y tywydd yn cael effaith ar nifer y beicwyr sy'n defnyddio'r llwybr? | Does dim ellir ei wneud ynghylch y tywydd, ond ni ddylai gyfyngu ar ein rhyddid yn arbennig rhai sydd mewn ysgol gyfun. Rydym eisiau i bobl ifanc gymryd mantais o'n rhyddid a defnyddio'r ffaith eu bod nhw'n ifanc i brofi bod allan yn yr awyr agored. |
| Sut fydd yr ysgol yn hwyluso'r nifer cynyddol o feiciau? | Ar y funud, mae yna lawer o ofodau yn yr ysgol ac os oes gofyn amdano, gellir ehangu ar hyn. |
| Gall disgyblion deimlo'n anniogel yn beicio | Gall hyn fod oherwydd digwyddiad maent wedi ei brofi ar feic o'r blaen, ond yr unig ffordd i ennill |

| | |
|---|---|
| | hyder gydag ef eto yw ymarfer. Rydym yn ceisio lleihau'r nifer o ddamweiniau gyda cheir a chreu man diogel ar gyfer teithio llesol. Nod y cynllun yw cynyddu hyder sydd gan ddisgyblion i feicio i'r ysgol ac oddi yno gan beidio ag annog deiliadaeth car unigol. |
| Pa bryd fydd hyn yn cael ei roi ar waith? | Ar y funud rydym yn gwirio beth yw barn disgyblion ynghylch y cynllun. Yna, bydd sesiwn ymgysylltu cymunedol ar 15fed o Orffennaf 2024, wedi i ni gael syniad o beth yw barn pobl ynghylch y cynllun; bydd hyn yn cael ei ystyried wrth benderfynu beth i'w wneud nesaf. |
| Tra mae'n cael ei adeiladu, sut fyddwn ni'n cael mynediad at yr ysgol? | Bydd y ddwy groesfan sebra'n cael eu hadeiladu yn gyntaf er mwyn gwahanu pobl oddi wrth y gwaith adeiladu. Bydd gwaith adeiladu hefyd yn digwydd mewn rhannau ac ni fydd y llwybr i gyd yn cael ei ddatblygu ar unwaith. |
| Beth am barcio a pharcio wrth ochr tai ar yr allt? | Mae'n rhaid i geir fod yn ofalus wrth ddefnyddio gelltydd a pharcio wrth ochr tai fel sydd ei angen nawr. Aeth y swyddogion ymlaen i addysgu'r disgyblion ar reolau'r ffordd fawr. |
| Beth sy'n digwydd os yw pobl yn parcio ar y stryd wedi i'r gwaith gael ei wneud? | Yr ardal y tu allan i'r ysgol fydd yr unig le lle allwch chi ddim parcio, a bydd yn dangos cyflymder araf er mwyn helpu i wneud yr ysgol yn lle mwy diogel i fynd i mewn iddo/ dod ohono. |
| Beth am barcio ar gyfer y tai sydd gyferbyn â'r ysgol? | Bydd gan y parthau igam-ogam amseroedd penodol pan y gallwch chi ac na allwch chi barcio gyferbyn â'r ysgol. |
| Gall culhau'r ffordd ar ben yr allt achosi problemau i gael mynediad i'r stryd. | Rydym yn ceisio annog rhieni i beidio â defnyddio ceir i ollwng plant, gobeithio y bydd rhieni yn sylweddoli hyn. Bydd culhau'r stryd yn helpu gyda diogelwch drwy ostwng cyflymder gyrru. |
| Beth am y bolardiau? | Maen nhw yno i atal pobl rhag parcio ar ben y trac seiclo ac ni fyddant yn atal pobl rhag parcio wrth ochr/o flaen eu tai. |

| | |
|---|---|
| Mae’n bosib na fydd rhai pobl eisiau symud eu ceir | Mae gan bob tŷ ar hyd cam 1 ddreif sy’n gallu dal o leiaf 1 car. |

**Tabl 7:** Cwestiynau ac atebion mewn sesiwn ymgysylltu gyda disgyblion.

## 4.0 DEISEB

4.0.1 Ym mis Gorffennaf 2024, derbyniodd y cyngor ddeiseb 17 pwynt gan breswylwyr Cilgant Myrddin a Bright Hill a oedd am ei gweld yn cael ei chyflwyno yn erbyn y camau llwybr beicio llesol 1, 2 a 3 o Ysgol Gyfun Bryntirion i Broadlands. Gellir gweld y problemau a godwyd a'r ymatebion cyfatebol gan swyddogion yn Nhabl 8 isod. Mae'r ddeiseb 137 llofnod yn erbyn y cynllun rhwng mis Medi a mis Hydref 2022, a'i gyflwyno i'r cyngor ym mis Gorffennaf 2024, yn llawn mor bwysig i'w grybwyll yn yr adroddiad hwn.

| Sylw | Ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
|---|---|
| Diogelwch i breswylwyr sy'n mynd i mewn i'w dreif wrth ymyl eu tŷ neu'n gadael. | Mae angen i yrwyr gymryd gofal wrth gael mynediad a gadael eu dreif ac aros nes ei bod yn glir cyn bwrw ymlaen yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. |
| Preswylwyr sy'n atebol am ddamweiniau. | Mae hierarchiaeth trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar rai sydd â'r potensial i achosi'r mwyaf o niwed. |
| Sefyll ar lwybr beics wrth aros am fysiau. | Darperir man goddiweddyd arhosfan bws gyda blaenoriaeth i gerddwyr.<br><br>Mae trefniant tebyg eisoes yn cael ei ddefnyddio ar Heol y Bont-faen ac ar draws de Cymru. |
| Codi palmentydd gyda phwyntiau gwasanaeth nwy a thrydan ar lwybrau. | Gwasanaeth nwy a thrydan i'w defnyddio yn ôl y gofyn.<br><br>Y contractiwr i ddarparu asesiadau risg a datganiadau dull priodol. |
| Am hyd y cyfnod y byddai'r gwaith adeiladu yn ei gymryd. | Llwybr ystyriol o draffig yn ddisgwyliedig i'r ysgol. Mae diogelwch yn flaenoriaeth felly bydd y gwaith adeiladu yn agored i oriau gweithio gostyngol a bydd yn cymryd mwy o amser. |
| Ymddangosiad allanol o flaen tai yn cael ei amharu a phrisiau tai yn gostwng. | Dim o anghenraid. Mae hon yn farn oddrychol. |
| Cyflymder gormodol beicwyr. | Dylai pob un sy'n defnyddio'r ffordd fawr deithio gyda'r gofal a'r sylw dyledus. Y lôn feics wedi |

| | |
|---|---|
| | cael ei gwahanu oddi wrth y llwybr troed i gerddwyr. |
| Mae Graddiant 9 gradd y llwybr troed presennol dros y 5 gradd a ganiateir ac y manylir arno yng nghanllawiau teithio llesol Llywodraeth Cymru. | Mae’n amhosib addasu’r graddiant.<br><br>Does dim dewis arall ymarferol ar gyfer y llwybr yma. |
| Cael gwared o ymylon glaswellt yn achosi problemau gyda dŵr sy’n rhedeg oddi ar yr arwyneb gan achosi llifogydd ar waelod yr allt. (Systemau Draenio Cynaliadwy SUDS). | Draeniau ar y ffordd fawr i gasglu’r dŵr arwyneb. Bydd gwteri ychwanegol yn cael eu darparu. |
| Perygl i gerddwyr o gael eu taro gan feicwyr sy’n mynd yn rhy gyflym. | Dylai pob un sy’n defnyddio’r ffordd fawr deithio gyda’r gofal a’r sylw dyledus. Y lôn feics wedi cael ei gwahanu oddi wrth y llwybr troed i gerddwyr. |
| Bydd culhau lled y ffordd yn achosi tagfeydd. | Bydd culhau’r briffordd yn helpu i ostwng cyflymder cerbydau. |
| Preswylwyr, ymwelwyr a cherbydau cynnal a chadw’r cartref ddim yn gallu parcio y tu allan i’w tai. | Defnyddio dreif y tu allan i’r tŷ neu barcio ar y briffordd. |
| Lonydd culach, gyda bysiau ddim yn gallu rhedeg ar hyd Cilgant Myrddin ar amser prysuraf y diwrnod ysgol. | Dylai gyrwyr gymryd gofal wrth barcio fel nad ydynt yn achosi rhwystr ar ddreifiau neu’r briffordd. |
| Bydd rhieni sy’n casglu’r plant yn parcio arno fel ag y maent yn ei wneud nawr ar yr ymylon glaswellt. | Bwriedir gosod bolardiau er mwyn atal hyn. Dylai gyrwyr gymryd gofal wrth barcio fel nad ydynt yn achosi rhwystr ar ddreifiau neu’r briffordd. |
| Y trac beicio’n cael ei ddefnyddio gan sgwteri a beiciau trydan anghyfreithlon. | Nid yw beiciau trydan yn anghyfreithlon. Mae defnyddio cerbydau anghyfreithlon yn fater gorfodaeth. |
| Preswylwyr yn methu gosod bagiau/blychau ailgylchu y tu allan i’w tai gyda phryderon o ddamweiniau’n digwydd i gerddwyr a beicwyr. | Nid yw’r sefyllfa’n wahanol i nifer o leoliadau eraill ar hyd a lled Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd preswylwyr yn dal i allu gosod eu hailgylchu ar ymyl y palmant er mwyn iddo gael ei gasglu. |

| | |
|---|---|
| Dim ystyriaeth yn cael ei roi i'r henoed, yr anabl na rhai'n cerdded cŵn sy'n byw ar y stryd a'r ardal gyfagos. | Bydd yr henoed, yr anabl a rhai'n cerdded cŵn yn gallu defnyddio'r llwybr cerdded gydag arwyneb newydd.<br><br>Mae lonydd beiciau'n addas i'w defnyddio gan sgwteri symudedd. |
| Y llwybr beics dwy ffordd yn rhy agos i nifer o blant ysgol sy'n cerdded i'r ysgol ac yn gadael yno i gyd ar unwaith. | Bydd plant ysgol yn gallu defnyddio'r llwybr os ydynt yn dymuno beicio i'r ysgol ac oddi yno.<br><br>Gofynnir i'r ysgol atgoffa disgyblion i ddefnyddio'r llwybr troed wrth gerdded yn hytrach na'r llwybr beics. |

**Tabl 8:** Sylwadau ac ymatebion swyddogion o'r ddeiseb.

# 5.0 CASGLIAD

5.0.1 Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac mewn sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb, a all fod wedi arwain at rhai ymatebion wedi eu dyblygu. Fodd bynnag, fe wnaeth arwain at beth cyfranogiad cymunedol, gyda safbwyntiau'n cael eu mynegi o blaid ac yn erbyn y cynllun fel ei gilydd.

5.0.2 Defnyddir y llwybr cerdded presennol ar gyfer amrywiaeth o ddulliau teithio, ond roedd cyfranogwyr yn aml yn tynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig i deithio llesol, megis hygyrchedd a chyfleustra. Mynegodd nifer o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt deithio mewn car yn unigol, gan gyfeirio at amrywiol resymau dros ddewis y dull hwn o deithio wrth deithio o ddydd i ddydd yn hytrach na dewis teithio llesol.

5.0.3 O ran gwelliannau i'r seilwaith, dywedodd 85% o na fyddai newidiadau o'r fath yn eu hannog hwy i gerdded neu feicio'n fwy aml. O ran cefnogaeth gyffredinol tuag at y cynllun, roedd 75% o ymatebwyr yn ei wrthwynebu tra oedd 18% o blaid. Roedd y 7% o ymatebwyr oedd yn weddill heb benderfynu.

5.0.4 Mae'r crynodeb hwn yn adlewyrchu adborth y gymuned ac mae'n darparu mewnwelediadau gwerthfawr i'r heriau a'r safbwyntiau sydd angen eu hystyried wrth werthuso'r cynllun arfaethedig.

## 5.1 BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

5.1.1 Bydd deilliannau'r ymgynghoriad hwn yn cael ei adrodd i'r Cabinet i'w ystyried, lle bydd pob achos yn cael ei adolygu a phenderfyniad yn cael ei wneud ynghylch p'un ai i fwrw ymlaen gyda'r cynllun. Roedd mewnbwn gan y sesiynau ymgysylltu a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ynghyd â'r cyflwyniad a gyflwynwyd, yn cael eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

# 6.0 ATODIADAU

## ATODIAD A: COPI O AROLWG CILGANT MYRDDIN

**15/07/2024**

**Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio wrth deithio bob dydd?**

| Amlder | Ticiwch os gwelwch yn dda |
|---|---|
| 7 diwrnod yr wythnos | |
| 5-6 diwrnod yr wythnos | |
| 2-4 diwrnod yr wythnos | |
| Unwaith yr wythnos | |
| Unwaith bob pythefnos | |
| Unwaith y mis | |
| Llai aml | |
| Byth | |

**Pa anawsterau sydd yna o ran cerdded neu feicio yn eich ardal chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| Rhesymau iechyd | |
| Cyfleus | |
| Croesfannau diogel | |
| Prinder cyfleusterau teithio llesol | |
| Cymryd gormod o amser | |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | |

**A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio yn amlach nag yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?**

| **Ticiwch os gwelwch yn dda** | |
|---|---|
| Ydw | Nac ydw |
| | |

**A ydych chi'n cefnogi'r cynllun?**

| **Ticiwch os gwelwch yn dda** | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb benderfynu |
| | | |
| Sylwadau pellach/ychwanegol: | | |

**Enw:**

**Cyfeiriad e-bost:**

## ATODIAD B SGRINLUN O'R LLYTHYR A ANFONWYD AT BRESWYLWYR

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642510
Gofynnwch am / Ask for: Kwaku Opoku-Addo

AT BWY BYNNAG A FYNNO WYBOD

**Dyddiad / Date: 26/06/2024**

Annwyl breswylwyr,

**Sesiwn galw-heibio ymgysylltu a gwybodaeth i breswylwyr**
**Llwybr Teithio Llesol Cilgant Myrddin**

Rydym yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r llwybr cerdded/beicio ar wahân arfaethedig ar hyd Cilgant Myrddin a chyrbau isel penodol ym Mryntirion.

Sesiwn ymgysylltu fydd hon lle bydd swyddogion yn bresennol i amlygu lluniadau a chynlluniau i aelodau o'r gymuned. Mae cynghorwyr lleol a chynghorwyr cymuned lleol wedi cael eu gwahodd hefyd.

Galwch heibio yn Ysgol Gyfun Bryntirion, Cilgant Myrddin, CF31 4QR unrhyw bryd rhwng 16:30 a 19:00 ar 15 Gorffennaf 2024.

Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl os mai Cymraeg yw eich dewis iaith os gwelwch yn dda er mwyn i ni gael digon o amser i drefnu gwasanaeth cyfieithu.

Yn gywir,

**Kwaku Opoku-Addo**

**Arweinydd Tîm Cynllunio Trafnidiaeth Strategol**